



Ein cyf/Our ref: WQs 97430 – 97435

Sioned Williams AS

13 Hydref 2025

Annwyl Sioned,

Diolch am eich cwestiynau diweddar, (WQ 97430 – 97435). Gan fod yr holl gwestiynau yn ymwneud â chyllidebau Prif Grŵp Gwariant (MEG), mae'n haws darparu un ymateb sy'n ymdrin â phob un ohonynt

I ateb WQ97430 ynglŷn â llinell gwariant cyllidebau canolog corff llais dinasyddion -- mae Llais yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n gweithredu'n annibynnol. Dyrennir cyllideb flynyddol i Llais i'w gwario yn unol â'u llythyr cylch gwaith ac yn unol â'u cynllun blynyddol cyhoeddedig. Mae gan Llais ei weithdrefnau ei hun ar gyfer penderfynu sut mae cyllid yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae eu cyfrifon blynyddol yn cael eu gosod gerbron Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Senedd.

O ran WQ97431, mae'r llinell wariant cyllidebau canolog trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cefnogi camau gweithredu i gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2022-2026. Bydd y gyllideb hon yn ariannu ystod o raglenni a phrosiectau, gan gynnwys: Cyllid Grant Rhanbarthol; llety a lloches, ariannu gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion goroeswyr, rhaglenni ymyrraeth gynnar ac ymdrin â drwgweithredwyr; Byw Heb Ofn; Ymgyrch lawn; a grantiau cyfalaf i ariannu'r gwaith o adnewyddu eiddo, gwella gwasanaethau ac uwchraddio lleoliadau a ddefnyddir gan defnyddwyr gwasanaeth a'r cyfarpar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


O ran WQ97432, sy'n ymwneud â'r llinell wariant cyllidebau canolog cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol, yn ystod 2025-26 rydym yn defnyddio'r gyllideb hon i gefnogi'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys: cyflawni'r ymrwymadau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys ein hymrwymadau o ran Sipsiwn, Roma a Theithwyr; cefnogi digwyddiadau Pride Cymru a'r Gronfa Balchder Llawr Gwlad ledled Cymru, a goroeswyr therapïau trosi; mynd i'r afael â thlodi mislif trwy sicrhau bod nwyddau mislif ar gael mewn ysgolion a lleoliadau eraill; cefnogi gwaith technegol tuag at ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod; a chefnogi grwpiau rhanddeiliaid – gan gynnwys grwpiau BSL a Phobl Anabl – i ymgysylltu â phrosesau polisi Llywodraeth Cymru ar BSL a chymorth i bobl anabl. Mae'r gyllideb hefyd yn ymdrin â chostau cymorth rhaglenni.

O ran WQ9743, mae'r BEL Gwasanaethau Cynghori yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol o ansawdd ledled Cymru ac ystod o fentrau gwneud y mwyaf o incwm. Mae'r BEL hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith i symleiddio'r ffordd y gweinyddir budd-daliadau Cymru.

O ran WQ97434, mae llinell gwariant cyllidebau canolog y sector gwirfoddol yn cefnogi camau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraeth i barhau â'n partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod ein cyfrifoldebau. Bydd y gyllideb yn ariannu ystod o raglenni a phrosiectau, gan gynnwys Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Credydau Amser Tempo, Sefydliad Cymunedol Cymru, Newid, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol a'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Yn olaf, ar gyfer WQ97435, rydym yn defnyddio cyllideb Cyflawni Cyfiawnder Troseddol 2025-26 i ariannu Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod (gan gynnwys Ymweld â Mam), Cynghorydd/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig i gefnogi menywod Cymru yn y carchar, gwerthusiad o'r Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuencid a Chyfiawnder Menywod yn ogystal â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru.

Yn gywir



Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip